Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysidadu Hwylus

## Y Cyfansoddiad – Is-ddeddfwriaeth

Tachwedd 2010

## Cyflwyniad

Deddfwriaeth a gaiff ei gwneud gan berson neu gorff yn unol â'r pwerau a ddirprwyir iddo gan ddeddfwriaeth sylfaenol fel Deddf neu Fesur Cynulliad (yn wahanol i ddeddfwriaeth sylfaenol a ddefnyddir i ddisgrifio deddfwriaeth a wneir gan gyrff deddfwriaethol, yn hytrach na'r corff gweithredol) yw is-ddeddfwriaeth.

Mae is-ddeddfwriaeth yn atodol i Fesurau'r Cynulliad a Deddfau Senedd y DU a gallant fod ar ffurf Offerynnau Statudol (y ffurf fwyaf cyffredin) ac mewn rhai achosion, ar ffurf codau ymarfer, adroddiadau, gorchmynion, rheoliadau, rheolau, cynlluniau neu ganllawiau. Math o is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys yn benodol i Gymru ac a wneir yn unol ag awdurdod sydd wedi'i gynnwys naill ai mewn Deddfau Seneddol sy'n berthnasol i Gymru neu Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw Offerynnau Statudol Cymru.

## Gweithdrefn y Cynulliad Cenedlaethol o ran Offerynnau Statudol

Mae llawer o offerynnau statudol yn ddarostyngiedig i reolaeth seneddol a rheolaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd yr offerynnau statudol hyn yn dilyn un o'r gweithdrefnau a nodwyd yn *Neddf Offerynnau Statudol 1946*[1]; naill ai'r weithdrefn penderfyniad negyddol, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol neu ddim gweithdrefn (y bydd Memorandwm Esboniadol i Fesur neu Ddeddf wreiddiol yn ei phennu). Bydd memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd ag offeryn statudol neu offeryn statudol drafft hefyd yn pennu'r weithdrefn y bydd yr offeryn statudol hwnnw yn ei dilyn[2].

### Y weithdrefn negyddol

Bydd is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn dod i rym oni bai bod gwrthwynebiad gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r mwyafrif o offerynnau statudol yn debygol o fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

Pan fydd offeryn statudol yn ddarostyngedig i benderfyniad negyddol:

- Bydd yr offeryn statudol perthnasol yn cael ei 'wneud' (ei lofnodi'n ffurfiol) yn gyntaf

[1] Deddf Offerynnau Statudol 1946 (c.36)
[2] Ymhellach, mae Rheol Sefydlog 24 yn nodi gofynion gweithdrefnol penodol mewn cysylltiad ag is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol neu'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mewn achosion prin iawn bydd is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i weithdrefn Cynulliad arbennig, sydd wedi'i nodi yn Rheol Sefydlog 25. Yn ogystal, ni fydd ambell is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i weithdrefn o gwbl (ee gorchmynion cychwyn ).

gan Weinidogion Cymru;

- Yna bydd yn cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a rhaid bod Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag ef, a rhaid i hwnnw gynnwys unrhyw Asesiad Effaith Rheoleiddiol a baratowyd mewn perthynas â'r offeryn statudol hwnnw;
- Fel arfer, dylai 'ddod i rym' (hy dod yn gyfraith) o leiaf 21 diwrnod busnes ar ôl y dyddiad gosod, oni bai fod y Llywydd wedi cael hysbysiad gan y Gweinidog perthnasol yng Nghymru yn egluro pam na ddigwyddodd hynny;
- O fewn 40 diwrnod[3] i osod is-ddeddfwriaeth, caiff Aelodau gymeradwyo cynnig (nad oes modd ei ddiwygio) gan benderfynu bod yr offeryn statudol i gael ei ddirymu[4].

## Y weithdrefn gadarnhaol

Mae cyfran fach o'r ddeddfwriaeth bwysicaf yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a rhaid iddi gael ei chymeradwyo'n ffurfiol gan y Cynulliad Cenedlaethol cyn y daw i rym.

Pan fydd offeryn statudol yn ddarostyngedig i benderfyniad cadarnhaol:

- Caiff yr offeryn statudol ei osod gerbron y Cynulliad yn gyntaf, a hynny ar ffurf ddrafft fel arfer (ni all Gweinidogion Cymru ei wneud fel arfer nes iddo gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cynulliad) a rhaid i Femorandwm Esboniadol, y mae'n rhaid iddo gynnwys unrhyw Asesiad Effaith Rheoleiddiol a baratowyd mewn perthynas â'r offeryn statudol hwnnw, gyd-fynd ag ef;
- Bydd un o Weinidogion Cymru yn cyflwyno cynnig (nad oes modd ei ddiwygio) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad i'r offeryn statudol;
- Nid oes modd i gynnig i gymeradwyo offeryn statudol gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn nes bod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol neu unrhyw bwyllgor arall (sydd wedi hysbysu Llywodraeth Cymru am ei fwriad i wneud hynny o fewn 7 diwrnod i osod yr offeryn statudol) wedi cyflwyno adroddiad ar yr offeryn statudol drafft, neu, bod o leiaf 20 diwrnod wedi mynd heibio ers ei osod (pa un bynnag yw'r cynharaf);
- Os caiff y cynnig ei gymeradwyo gan y Cynulliad, gall Gweinidogion Cymru wedyn wneud offeryn statudol.

## Y weithdrefn uwchgadarnhaol

Mae'r weithdrefn uwchgadarnhaol yn ddatblygiad gweithdrefnol cymharol ddiweddar mewn cysylltiad â rheoli is-ddeddfwriaeth. Mae'n ddull a ddefnyddir mewn amgylchiadau eithriadol i gymeradwyo deddfwriaeth sy'n dirprwyo pwerau gweithredol eang trwy

[3] Mae'r cyfnod hwn o 40 diwrnod yn ofyniad statudol sy'n deillio o *Ddeddf Offerynnau Statudol 1946*. Mae'r 40 diwrnod yn ddiwrnodiau calendr ond nid ydynt yn cynnwys cyfnod o doriad o bedwar diwrnod neu fwy.

[4] Mae hwn yn wahanol i'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn Rheol Sefydlog 24.2. Yn ymarferol, golyga darpariaethau Rheol Sefydlog 24.2 y gallai Aelod gredu bod modd cyflwyno cynnig i ddirymu gael ei gyflwyno ar y deugenfed diwrnod ar ôl gosod yr Offeryn Statudol, a bod modd trafod y cynnig hwnnw yn ddiweddarach. Fodd bynnag, gan fod darpariaethau *Deddf Offerynnau Statudol 1946* yn dweud bod yn rhaid i'r penderfyniad i ddirymu gael ei wneud o fewn y cyfnod o 40 diwrnod, os caiff cynnig ei gyflwyno'n hwyr yn y cyfnod hwnnw o 40 diwrnod, efallai na fydd hyn yn rhoi digon o amser i'w drafod, a phasio penderfyniad o fewn y terfyn amser o 40 diwrnod.

reoliadau.  Gall union fanylion darpariaeth o’r fath amrywio, ond yn fras mae’n cynnwys:

- Gosod gofyniad ar un o Weinidogion Cymru sy’n bwriadu gwneud rheoliadau i osod drafft gerbron deddfwrfa am gyfnod estynedig o amser (am gyfnod o 60 diwrnod yn nodweddiadol);
- Un o Weinidogion Cymru ’n ystyried sylwadau a wnaed gan y ddeddfwrfa (neu gan bwyllgor o’r ddeddfwrfa) yn ystod y cyfnod hwnnw; ac
- Ystyried, yng ngoleuni’r sylwadau, a ydynt am adolygu’r drafft a gaiff ei osod gerbron y ddeddfwrfa i’w gymeradwyo.

Er nad oes gweithdrefn uwchgadarnhaol benodol wedi’i chynnwys yn *Neddf Offerynnau Statudol 1946* nac wedi’i hamlinellu yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, roedd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn credu ei bod yn briodol y dylai fod y fath lefel ychwanegol o graffu pan gynigir bod modd i ddatblygiad polisi arwyddocaol iawn gael ei weithredu gan Weinidogion Cymru drwy is-ddeddfwriaeth fel y nodir yn y Mesur neu’r Ddeddf wreiddiol.

Enghreifftiau o Fesurau’ Cynulliad sydd wedi gwneud darpariaethau ar gyfer defnyddio’r weithdrefn uwchgadarnhaol yw:

- ***Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009***[5]**:** Mae Adran 31 o’r Mesur yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi unrhyw bwerau y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â dyletswyddau statudol a amlinellir mewn man arall yn y Mesur. O ganlyniad, mae adran 32 yn nodi gweithdrefn benodol sydd i fod yn gymwys i orchmynion a wneir o dan yr adran hon. Ni ddylai gorchymyn drafft sy’n cynnwys cynigion o dan adran 32 gael ei osod gerbron y Cynulliad (i gynnal dadl arno) oni bai fod drafft sy’n cynnwys cynigion o’r fath wedi’i osod gerbron y Cynulliad eisoes am gyfnod o chwe deg diwrnod a bod unrhyw sylwadau a gafwyd o fewn y cyfnod hwnnw o drigain diwrnod a nodwyd wedi’u hystyried.
- ***Mesur Addysg (Cymru) 2009***[6]**:** Rhydd Adran 18 o’r Mesur bwerau i Weinidogion Cymru ychwanegu, dileu neu addasu hawliau plant ynghylch apelau a hawliadau gan blentyn i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae’r Mesur yn cynnwys darpariaeth yn adran 25 sy’n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau ‘sydd yn eu barn hwy’n gynrychioliadol o fuddiannau yr effeithir arnynt gan eu cynigion’ ac i ystyried eu safbwyntiau cyn gosod gorchymyn o dan adran 18 o’r Mesur arfaethedig.

## Gweithdrefnau eraill

Yn dibynnu ar y Ddeddf wreiddiol, nid oes angen i’r Senedd na’r Cynulliad graffu ar rai offerynnau statudol (ee gorchmynion cychwyn) ac felly mae’n ofynnol iddynt gael eu gosod

[5] Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009
[6] Mesur Addysg (Cymru) 2009

gerbron y Cynulliad wedi iddynt gael eu gwneud.

Mae rhai offerynnau statudol, fel offerynnau statudol a gaiff eu cymhwyso'n lleol (ee gorchmynion prynu gorfodol, is-ddeddfau ac ati) nad yw'n ofynnol iddynt, yn ôl y Ddeddf wreiddiol gael eu gosod o gwbl, ac felly nid yw gweithdrefnau Seneddol yn gymwys iddynt.

## Pwyllgorau'n craffu ar Offerynnau Statudol

Amlinellir y modd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymdrin ag offerynnau statudol o dan Reol Sefydlog 15, sy'n sefydlu Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth (a gafodd ei ail-enwi yn Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol ym mis Chwefror 2010) ac mae'n nodi sut y dylai'r Pwyllgor ystyried offerynnau statudol a chraffu arnynt a'r pwerau a ddirprwywyd i Weinidogion drwy is-ddeddfwriaeth.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yw'r unig bwyllgor yn y Cynulliad sydd â rôl a ddiffiniwyd mewn cysylltiad â chraffu ar offerynnau statudol sy'n ddarostyngedig i naill ai weithdrefn negyddol neu weithdrefn gadarnhaol. Ei ddiben yw tynnu sylw'r Cynulliad at offerynnau statudol sy'n deilwng i gael eu hystyried yn fwy manwl. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn atal pwyllgorau eraill y Cynulliad rhag cyflwyno adroddiadau ar agweddau penodol ar offerynnau statudol os dyna yw eu dymuniad.

Yn fras, caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried offerynnau statudol mewn dwy ffordd:

1. **Materion technegol: craffu (gorfodol)**

O dan Reol Sefydlog 15.2, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol wneud gwaith craffu 'technegol' gorfodol ar offerynnau statudol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor ystyried yr holl offerynnau statudol perthnasol neu offerynnau statudol drafft a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn statudol (hy yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn) ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

- ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw *intra vires* (hy o fewn cymwysedd Gweinidogion Cymru);
- ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano;
- bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i'w wneud yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ei eithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;
- ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn;
- bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol;
- ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol;
- ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft;
- bod yr offeryn neu'r drafft yn defnyddio iaith ryw-benodol;

- nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth ei gyhoeddi neu wrth ei osod gerbron y Cynulliad; neu
- ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth anfon hysbysiad o dan adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, (fel y'i haddaswyd).

Bydd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor yn ystyried ymlaen llaw yr holl offerynnau statudol a'r offerynnau statudol drafft a gaiff eu hystyried gan y Pwyllgor yn y modd hwn ac yn paratoi cyngor, ar ffurf adroddiad, yn nodi'r materion technegol sy'n codi o dan Reol Sefydlog 15.2 y bydd y Pwyllgor yn eu trafod yn fanwl o bosibl.

## 2. Rhagoriaethau: Craffu (dewisol)

Mae Rheol Sefydlog 15.3 hefyd yn caniatàu i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ddefnyddio ei ddisgresiwn ei hun i ymgymryd â gwaith craffu ar bolisi offerynnau statudol penodol ac i adrodd ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i unrhyw offerynnau statudol ar y seiliau (annhechnegol) canlynol:

- ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath;
- ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad;
- ei fod yn amhriodol oherwydd newid yn yr amgylchiadau ers i'r deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano gael ei basio neu ei wneud ei hun;
- ei fod yn rhoi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn amhriodol; neu
- nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith.

Disgrifir y math hwn o graffu dewisol fel craffu ar 'ragoriaethau' (hy rhagoriaethau gwleidyddol a rhagoriaethau cyfreithiol neu fel arall yr offeryn statudol o dan sylw). Byddai hyn yn cynnwys ystyried a yw'r offeryn statudol yn cyflawni ei amcan polisi ac ai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hynny. Ni fyddai, fodd bynnag, yn cwestiynu amcan polisi'r offeryn statudol ei hun.

Gwneir gwaith craffu ar ragoriaethau yn Senedd y DU gan Bwyllgor Rhagoriaethau Offerynnau Statudol Tŷ'r Arglwyddi. [7] Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ym mis Rhagfyr 2003 o ganlyniad i Gomisiwn Wakeham a argymhellodd y dylid sefydlu dull 'sifftio', naill ai drwy ddull cyd-bwyllgor neu bwyllgor Arglwyddi'n unig, i ddynodi'r offerynnau statudol hynny a

[7] Mae'r Pwyllgor hwn yn ategu gwaith y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol : Er bod y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol yn ystyried materion technegol ynghylch pa mor gyfreithiol yw cynigion, gwaith y Pwyllgor Rhagoriaethau yw ystyried y goblygiadau o ran polisi'r Offerynnau Statudol.

oedd yn bwysig ac a oedd yn deilwng o ddadl neu ystyriaeth bellach[8].

Yn y Cynulliad, gwneir y gwaith o graffu ar ragoriaethau gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol. Ym mis Mai 2009, argymhellodd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y pryd:

> Mae craffu ar ragoriaethau offerynnau statudol yn swyddogaeth bwysig i sicrhau'r lefel gywir o wiriadau ar sut mae pwerau dirprwyedig y Gweinidogion yn cael eu defnyddio. Penderfynodd y Pwyllgor y byddai ymgymryd â gwaith craffu ar ragoriaethau yn fuddiol..[9]

Caiff adroddiad ar ragoriaethau offeryn statudol ei baratoi gan y clerc mewn trafodaeth â chynghorwyr cyfreithiol ac aelodau o staff Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a bydd yn amlinellu rhesymau'r Pwyllgor dros wneud gwaith craffu ar ragoriaethau ac yn amlygu'r meysydd penodol sy'n peri pryder ac y bydd angen i'r Cynulliad eu hystyried.

## Ymdrin ag offerynnau statudol y weithdrefn negyddol

Pe bai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol am gyflwyno adroddiad ar offeryn statudol penodol, ar y sail a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2 a 15.3, rhaid iddo wneud hynny o fewn 20 diwrnod (nid yw hyn yn cynnwys dyddiau pan fydd y Cynulliad ar doriad am fwy na 4 diwrnod). Y rheswm am hyn yw er mwyn sicrhau bod modd i'r Gweinidog a'r Cynulliad ystyried adroddiadau'r Pwyllgor mewn da bryd cyn bod darpariaethau'r offeryn statudol yn dod i rym.

Gall pwyllgorau eraill y Cynulliad hefyd gyflwyno adroddiad ar offerynnau statudol a wneir o dan y weithdrefn negyddol os dymunant. Eto, byddai angen iddynt gyflwyno eu hadroddiadau'n ddi-oed (o fewn 20 diwrnod) er mwyn galluogi'r Aelodau i ystyried barn y pwyllgor wrth benderfynu a ydynt am gyflwyno cynnig dirymu. Mae'n bwysig bod pwyllgorau'n cael eu hysbysu ynghylch is-ddeddfwriaeth newydd cyn gynted ag y bo modd er mwyn eu galluogi i ystyried offerynnau statudol perthnasol yn amserol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Dylai offeryn statudol ddod i rym o leiaf 21 diwrnod ar ôl y dyddiad gosod cychwynnol ('y rheol 21 diwrnod'). Os na chaiff offeryn statudol ei osod gerbron y Cynulliad o leiaf 21 diwrnod cyn iddo ddod yn weithredol, rhaid hysbysu'r Llywydd pan gaiff ei osod er mwyn tynnu sylw'r Cynulliad at y ffaith bod y rheol 21 diwrnod wedi'i thorri ac yn egluro pam y digwyddodd hynny.

Dylid nodi hefyd, er bod 40 diwrnod pan fydd yn bosibl cymeradwyo cynnig (nad oes modd ei ddiwygio) gan benderfynu i ddirymu offeryn statudol, bydd yr offeryn statudol hwnnw fel arfer yn dod i rym 21 diwrnod wedi iddo gael ei osod. Felly, mae'n bosibl i hyn gyfyngu ar yr amser sydd ar gael i lywio'r drafodaeth ar offeryn statudol penodol a gallai ddylanwadu ar benderfyniad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol neu unrhyw bwyllgor arall o ran pryd y byddai'n well iddo gyflwyno adroddiad.

---

[8] Mae rhagor o wybodaeth am waith y Pwyllgor Rhagoriaethau Offerynnau Statudol i'w gweld yma: **Bristow, Paul, 2008, *The House of Lords Select Committee on the Merits of Statutory Instruments, The Table* : The Journal of the Society of Clerks-at-the-table in Commonwealth Parliaments, Volume 76, p.10-18**

[9] Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, *Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau diprwyedig* Mai 2009

## Ymdrin ag offerynnau statudol y weithdrefn gadarnhaol

Fel y nodwyd uchod, nid oes modd i gynnig i gymeradwyo offeryn statudol gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn nes bod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol neu unrhyw bwyllgor arall wedi cyflwyno adroddiad ar yr offeryn statudol drafft neu fod o leiaf 20 diwrnod wedi mynd heibio ers gosod yr offeryn statudol (pa un bynnag yw'r cynharaf).

Pan fydd pwyllgor ac eithrio'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn bwriadu cyflwyno adroddiad, rhaid hysbysu'r Llywodraeth am ei fwriad i wneud hynny o fewn 7 diwrnod i osod yr offeryn statudol.

O gofio bod modd i gynnig i gymeradwyo offeryn statudol neu offeryn statudol drafft gael ei gyflwyno gan y Llywodraeth pan fydd 20 diwrnod wedi mynd heibio, bydd yn rhaid I'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol neu unrhyw bwyllgor arall (sydd wedi rhoi'r rhybudd gofynnol o 7 diwrnod) gyflwyno adroddiad o fewn y cyfnod hwn er mwyn sicrhau bod modd ystyried eu safbwyntiau yn y drafodaeth. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd y ffaith y dylai pwyllgorau fod yn ymwybodol pa is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei pharatoi fel y gallant gyflwyno adroddiad yn gyflym os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

## Mathau eraill o ddeddfwriaeth y caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol hefyd eu hystyried

O dan Reol Sefydlog 15.6, caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol hefyd ystyried y canlynol a chyflwyno adroddiad arnynt:

- Unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a osodir gerbron y Cynulliad;
- Pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol;
- Canlyniadau gorchmynion drafft o dan Ran 1 o *Ddeddf Diwygio Deddfwriaeth a Rheoliadau 2006*[10] ar gyfer deddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i ystyriaeth yn y Cynulliad;
- Defnydd Gweinidogion Cymru ar bwerau cychwyn; neu
- Unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru.

Ni chaiff y Pwyllgor, fodd bynnag, drafod Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol nac unrhyw offeryn statudol nac offeryn statudol drafft y mae'n ofynnol iddynt gael eu gosod gerbron Senedd y DU (gan gynnwys offerynnau statudol a wnaed ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol) na chraffu arnynt, fel yr amlinellir yn Rheol Sefydlog 15.7.

## Canfod gwybodaeth am Is-ddeddfwriaeth

Bydd cynghorwyr cyfreithiol, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a Thîm Cyfraith Gyfansoddiadol y Cynulliad Cenedlaethol yn ceisio nodi'r offerynnau statudol hynny a fydd

[10] Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (c.51)

yn effeithio ar feysydd polisi penodol a rhoi gwybod i dimau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau am ddatblygiadau perthnasol.

Pe bai staff eu hunain am gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau, fodd bynnag, mae rhagor o wybodaeth am offerynnau statudol i'w chael yn y gwefannau a ganlyn:

- Cyhoeddir offerynnau statudol Cymreig ar **dudalennau is-ddeddfwriaeth** gwefan y Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y cânt eu gosod.
- Mae **tudalen y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ar y we** yn cynnwys gwybodaeth am gyfarfodydd sydd i ddod, ymchwiliadau cyfredol a phapurau'r Pwyllgor.
- Mae rhestr gyflawn o'r holl is-ddeddfwriaeth a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol ers 1999 wedi'i chynnwys ar gronfa ddata **Deddfwriaeth Cymru Ar-lein**.
- Mae is-ddeddfwriaeth (fel gorchmynion cau ffyrdd) nad oes iddi weithdrefn ffurfiol i'w gweld ar **dudalennau Llywodraeth Cymru ar y we**.
- Mae holl offerynnau statudol y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd ers 1987 ar gael ar wefan **legislation.gov.uk**.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am wahanol agweddau o is-ddeddfwriaeth, cysylltwch ag Owain Roberts (**owain.roberts@wales.gov.uk**), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

Edrychwch ar ein rhestr lawn o **hysbysiadau hwylus** yma.

**MRS 10/2686 Owain Roberts**

**Members' Research Service briefings are compiled for the benefit of Assembly Members and their support staff. Authors are available to discuss the contents of these papers with Members and their staff but cannot advise members of the general public. We welcome comments on our briefings; these should be sent to the Members' Research Service, National Assembly for Wales, Cardiff CF99 1NA or e-mailed to MembersLibrary@wales.gov.uk**